GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales




# Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru 2023-24

Fersiwn 1

## Manylion cyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am y gwaith a wnaed gan Raglen Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2023 hyd at ddiwedd Mawrth 2024.

Teitl: Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru 2023-24

Dyddiad: Mawrth 2026

ISBN: 978-1-83766-811-3

## Manylion cyswllt

Yr Is-adran Wybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

E-bost: Screening.Information@wales.nhs.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg heb oedi.

## Datganiad Sicrwydd Ansawdd

Mae cofnodion data sgrinio yn cael eu diweddaru'n gyson. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (wedi'u harchifo). Gallai hyn ymwneud â phryd y nodwyd bod angen sgrinio person; wedi cael canlyniadau prawf sgrinio y mae angen eu cofnodi neu wedi newid statws ac nad oes angen ei sgrinio mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o lawer o wahanol ffynonellau gyda lefelau amrywiol o gywirdeb a chyflawnrwydd. Mae'r Is-adran Sgrinio yn gwirio data am gywirdeb trwy gymharu setiau data - er enghraifft data practisiau Meddygon Teulu - ac mae'n cywiro'r data codio lle bo modd. Dylid nodi bod oedi weithiau wrth gasglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru ar unwaith gyda'i feddyg teulu os bydd yn symud i gyfeiriad arall. Bydd yr oedi hwn felly yn effeithio ar gyflawnrwydd y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal â hyn, dylai'r darllenydd fod yn ymwybodol bod data'n cael ei ddiweddaru'n gyson ac efallai y bydd mân newidiadau yn y niferoedd a nodir yn y ddogfen hon flwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd adnewyddu data. Byddwn, o bryd i'w gilydd, yn atal rhifau sy'n is na phump pan y gallai'r data fod yn sensitif.

## Gwybodaeth hawlfraint

© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) (www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Delwedd y clawr gan Neil Latham, Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Cynnwys ... 4
Tablau ... 5
Ffigurau ... 5
Negeseuon allweddol ... 6
Cyflwyniad ... 7
Cefndir ... 7
Cyflawni'r rhaglen ... 10
Llwybr Sgrinio ... 10
Prif Ystadegau ... 13
Data ... 14
Cwmpas ... 14
Nifer sy'n cael prawf sgrinio ... 24
Cynnig prawf sgrinio prydlon ... 27
Adroddiad ar ganlyniad prawf sgrinio ... 31
Retinopathi wedi'i Nodi ... 34
Diffiniadau ... 40
Y Tîm Cynhyrchu ... 43
Manylion cyswllt y rhaglen ... 44

# Tablau

Tabl 1: Cwmpas 2023-24 ........ 16
Tabl 2: Tuedd tair blynedd y cwmpas ........ 16
Tabl 3: Cwmpas profion sgrinio llygaid diabetig yn ôl bwrdd iechyd 2023-24 ........ 17
Tabl 4: Cwmpas yn ôl cwintel amddifadedd 2023-24 ........ 18
Tabl 5: Cwmpas y profion sgrinio llygaid diabetig blynyddol yn ôl bwrdd iechyd 2023-24 ........ 20
Tabl 6: Cwmpas Blynyddol yn ôl cwintel amddifadedd 2023-24 ........ 21
Tabl 7: Cwmpas profion sgrinio llygaid diabetig y Llwybr Ailalw Risg Isel yn ôl bwrdd iechyd 2023-24 ........ 22
Tabl 8: Cwmpas y Llwybr Ailalw Risg Isel (LRRP) yn ôl cwintel amddifadedd 2023-24 ........ 23
Tabl 9: Nifer sy’n cael prawf sgrinio 2023-24 ........ 25
Tabl 10: Y duedd tair blynedd o ran y nifer sy’n cael prawf sgrinio ........ 25
Tabl 11: Nifer y rhai sy'n cael prawf sgrinio am lygaid diabetig yn ôl bwrdd iechyd 2023-24 ........ 26
Tabl 12: Cyfranogwyr a ailalwyd ymhen 12 mis 2023-24 ........ 28
Tabl 13: Tuedd tair blynedd y cyfranogwyr a ailalwyd ymhen 12 mis ........ 28
Tabl 14: Cyfranogwyr a ailalwyd ymhen 12 mis yn ôl bwrdd iechyd 2023-24 ........ 29
Tabl 15: Canlyniadau a argraffwyd ymhen 21 diwrnod 2023-24 ........ 31
Tabl 16: Tuedd tair blynedd y canlyniadau a argraffwyd ymhen 21 diwrnod ........ 32
Tabl 17: Llythyrau canlyniadau a argraffwyd yn ôl bwrdd iechyd 2023-24 ........ 32
Tabl 18: Dadansoddiad presenoldeb retinopathi yn ôl bwrdd iechyd 2023-24 ........ 36
Tabl 19: Canlyniadau retinopathi yn ôl bwrdd iechyd 2023-24 ........ 37
Tabl 20: Atgyfeiriadau brys ar gyfer retinopathi ymledol gweithredol (R3A) at wasanaethau Offthalmoleg ymhen 14 diwrnod yn ôl bwrdd iechyd 2023-24 ........ 38
Tabl 21: Pob atgyfeiriad brys at wasanaethau Offthalmoleg yn ôl bwrdd iechyd 2023-24 ........ 39

# Ffigurau

Ffigwr 1: Llwybr Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ........ 12
Ffigur 2: Cwmpas profion sgrinio llygaid diabetig yn ôl bwrdd iechyd 2023-24 ........ 19
Ffigur 3: Cwmpas yn ôl cwintel amddifadedd ........ 19
Ffigur 4: Cyfranogwyr a ailalwyd ymhen 12 mis yn ôl bwrdd iechyd 2023-24 ........ 30
Ffigur 5: Llythyrau canlyniadau a argraffwyd yn ôl bwrdd iechyd 2023-24 ........ 33

# Negeseuon allweddol

- Mae cael prawf sgrinio'r llygaid yn rheolaidd yn lleihau'r risg o golli golwg a achosir gan retinopathi diabetig.
- Mae retinopathi diabetig yn gymhlethdod cyffredin diabetes sy'n effeithio ar ran 'gweld' y llygad: y retina.
- Achosir retinopathi pan fydd pibellau gwaed bach yn y retina yn tyfu neu'n gollwng. Dros amser, gall hyn effeithio ar y golwg dros dro neu'n barhaol.
- Hyd nes y bydd yn cyrraedd cam hwyr, nid yw'r rhan fwyaf o bobl â retinopathi yn profi symptomau nac yn colli golwg; nid ydynt yn gwybod ei fod wedi effeithio arnynt.
- Y ffordd orau o nodi a oes retinopathi yn bresennol yw cael prawf sgrinio'r llygaid yn rheolaidd.
- Gellir gwrthdroi retinopathi cynnar drwy gadw lefelau siwgr y gwaed o fewn yr ystod darged; gellir trin retinopathi mwy datblygedig drwy gael pigiadau i'r llygaid neu drwy gael triniaeth laser.
- Mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn cynnig prawf sgrinio gan y GIG am ddim a gynhelir mewn lleoliadau cymunedol ledled Cymru.
- Nid yw'r prawf sgrinio 100% yn gywir ac mae trin retinopathi diabetig yn peri risgiau.
- Dewis y cyfranogwr yw cael prawf sgrinio llygaid diabetig.
- Mae prawf sgrinio'r llygaid yn wahanol i archwiliad llygaid a gynhelir gan eich optegydd neu optometrydd. Rydym yn argymell eich bod yn mynd i'r prawf sgrinio a'r archwiliad llygaid.

# Cyflwyniad

## Cefndir

Croeso i'r chweched adroddiad ystadegol blynyddol a gyhoeddwyd gan Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW), Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nod y gwasanaeth yw canfod retinopathi diabetig cyn i unigolion golli eu golwg. Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos y gellir atal colli golwg mewn 70 – 90% o bobl â retinopathi diabetig sy'n bygwth eu golwg os caiff ei adnabod a'i drin yn gynnar[1 2].

Comisiynwyd DESW (Gwasanaeth Sgrinio Retinopathi Diabetig Cymru gynt) yn wreiddiol fel gwasanaeth cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2002. Daeth DESW yn weithredol ym mis Mehefin 2003 ac erbyn 2004 roedd yn darparu gwasanaeth i gyfranogwyr yn ardaloedd pob Bwrdd Iechyd. Cynhaliwyd y gwasanaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro tan fis Ebrill 2016 pan drosglwyddodd i ymuno â'r Rhaglenni Sgrinio eraill sy'n seiliedig ar y boblogaeth a ddarparwyd gan Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### Cymhwysedd

Mae pobl 12 oed a hŷn sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes, ac sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru, yn gymwys ac yn cael eu gwahodd i gael prawf sgrinio'r retina gyda DESW.

### Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol

[1] Diabetic Retinopathy Study Research Group (1981) Photocoagulation treatment of proliferative diabetic retinopathy. Clinical application of Diabetic Retinopathy Study (DRS) findings, DRS Report Number 8. Ophthalmology 88: 583–600.

[2] Early Treatment Diabetic Retinopathy Study (ETDRS) Research Group (1985) Photocoagulation for diabetic macular oedema. Early Treatment Diabetic Retinopathy Study report number 1. Archive Ophthalmology 103: 1796–806.

Gwefan Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio-llygaid-diabetig-cymru/

## Lleoliadau'r profion sgrinio

Caiff clinigau DESW eu darparu o gymysgedd o safleoedd parhaus a rhai dros dro, ar draws lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol. Mae'r safleoedd parhaus yn cynnwys ein canolfannau staff ym Mharc Dewi Sant yng Nghaerfyrddin, Llys Britannia ym Mangor, ac Ysbyty Maelor Wrecsam. Yn ogystal â hyn, mae gennym fynediad parhaus i glinigau yn ein Canolfan Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru gyntaf (Tŷ Rhos yn Aberpennar), yn ogystal ag yng Nghlinig Clytha yng Nghasnewydd, Ysbyty'r Barri, a Chanolfan Iechyd Mountain View yn Abertawe. Mae DESW hefyd yn gweithredu o tua 75 o leoliadau dros dro, mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol. Mae'r rhain wedi'u lleoli ar draws pob Ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru. Eu nod yw cynnig apwyntiadau mewn clinigau o fewn amser gyrru o 45 munud i bob cod post.

## Crynodeb o'r gweithgarwch yn ystod y flwyddyn a adroddir amdani

Drwy gydol 2023-24 parhaodd DESW i ganolbwyntio ar leihau'r ôl-groniad a brofwyd gan gyfranogwyr a oedd yn hwyr yn derbyn eu hapwyntiadau. Gwnaed cynnydd da ar hyn - cafodd yr amser oedi ei leihau 15 mis ym mhob ardal ledled Cymru. Er bod gostyngiad bach tua diwedd 2023/24, cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau newydd drwy gydol y flwyddyn o'i gymharu â 2022/23; y cyfartaledd misol ar gyfer y flwyddyn oedd 1,386.

Dechreuodd DESW gynnal clinigau dyddiol o'n hail Ganolfan Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd (Tŷ Kimberley) ar ddechrau mis Mehefin 2023. Hyd yn hyn, rydym wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan y cyfranogwyr a'r staff ynghylch y lleoliad sgrinio newydd. Mae'r lleoliad yn cynnwys saith ystafell glinig, a ddefnyddir yn rheolaidd gan wasanaethau DESW, Clyw Babanod, a Rhaglenni Sgrinio Anewrysm Aortig yn yr Abdomen. Mae'r lleoliad wedi'i leoli'n ddelfrydol mewn ardal fanwerthu brysur yng Nghaerdydd, sy'n dwyn mantais hygyrchedd gwell a bod arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus (bws a thrên) yn agos iawn at y lleoliad.

Yn dilyn newid polisi a gyfarwyddwyd gan Lywodraeth Cymru, cyflwynodd DESW y Llwybr Ailalw Risg Isel ym mis Mehefin 2023. Daeth y newid polisi hwn i fodolaeth yn unol â phenderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UKNSC) y gellir sgrinio pobl â diabetes y nodwyd eu bod mewn perygl isel o retinopathi diabetig yn ddiogel bob dwy flynedd. Cymerwyd y diffiniad o risg isel o sylfaen dystiolaeth UKNSC ac mae'n datgan ei bod yn ddiogel i'r cyfranogwyr hynny sydd wedi derbyn dau ganlyniad 'dim retinopathi' yn olynol yn dilyn apwyntiadau gyda'r Rhaglen ers 1 Ebrill 2019 gael prawf sgrinio bob dwy flynedd. Roedd hyn yn newid o'i gymharu â'r trefniadau blaenorol lle'r oedd pawb 12 oed neu hŷn â diabetes math 1 neu fath 2 yn cael eu gwahodd i gael prawf sgrinio'n flynyddol. Roedd rhaglenni sgrinio pob gwlad yn y DU wedi cwblhau cyflwyno'r un newid hwn erbyn diwedd 2023.

Goruchwyliodd tîm prosiect gweithredu DESW y gwaith oedd ei angen i wneud y newid hwn, gan ymgysylltu â nifer o randdeiliad allanol, a oedd yn cynnwys Llais, Diabetes UK, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB) ac Optometreg Cymru yn y broses. Holwyd cyfranogwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hefyd mewn perthynas â'r newidiadau hyn ac roeddent yn allweddol wrth gefnogi'r ffordd y cyflëwyd y newid hwn i'r grŵp cyfranogwyr ehangach, y rhai yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Cwblhawyd profion trylwyr o'r system TG, ac ar 23 Mehefin 2023, symudwyd 36,850 o gyfranogwyr a oedd yn bodloni'r meini prawf risg isel i'r llwybr dwy flynedd newydd yn llwyddiannus.

Ym mis Medi 2023, dechreuodd DESW bartneriaeth â Tenovus Cancer Care, elusen ganser flaenllaw sydd wedi'i lleoli yng Nghymru. Mae'r bartneriaeth hon wedi galluogi DESW i ddefnyddio unedau clinig symudol Tenovus ar draws pob rhanbarth daearyddol, er mwyn darparu mynediad cymunedol gwell i'n cyfranogwyr fynd i apwyntiadau prawf sgrinio'r llygaid. Mae'r hyblygrwydd wrth ddefnyddio'r math hwn o ddarpariaeth clinig wedi golygu y gellir darparu clinigau yn y lleoliadau sydd â'r angen mwyaf.

Yn ogystal â'r gwaith optimeiddio a gwblhawyd eleni, parhaodd DESW i ymgymryd â gwaith mewn perthynas â'i Raglen Drawsnewid. Cafodd gwerthusiad opsiynau terfynol ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan Dîm Gweithredol Busnes Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Medi 2023. Gyda chadarnhad bod cyllid refeniw rheolaidd ychwanegol yn cael ei roi i'r Rhaglen o fis Ebrill 2024, dechreuwyd gwaith ar recriwtio i'r rolau sy'n ofynnol i wella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth sgrinio a ddarperir gan DESW. Roedd y rolau allweddol a recriwtiwyd iddynt yn ystod 23/24 yn cynnwys Arweinydd Rhanddeiliad y Rhaglen, rôl sy'n ymroddedig i gefnogi ymgysylltiad â chyfranogwyr, eu teuluoedd, a grwpiau staff. Fe wnaethom hefyd greu ail swydd Cydlynydd Llwybr Sgrinio, fel adnodd ychwanegol i reoli a chydlynu Tîm Gweinyddol y Llwybr Sgrinio, a Rheolwr Prosiect pwrpasol ar gyfer y Rhaglen Drawsnewid sy'n mynd rhagddi. Llwyddwyd i benodi i'r tair swydd ac roedd y staff wedi dechrau yn eu swyddi erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

## Yn edrych ymlaen at y flwyddyn sgrinio nesaf

Yn dilyn cymeradwyo'r Rhaglen Drawsnewid o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, byddwn yn dechrau'r gwaith recriwtio i'r rolau ychwanegol a nodwyd yn y cynllun. Bydd hyn yn cynnwys mwy o gefnogaeth glinigol a gweithredol, lleoli staff sgrinio yn ardal canolbarth Cymru, mwy o weinyddwyr, a sefydlu tîm dysgu a datblygu'r gweithlu. Yn ogystal â hyn, mae adolygiad cymysgedd sgiliau'r Rhaglen wedi gallu nodi cyllid i gefnogi'r Optometrydd Arbenigol cyntaf i ymuno â'r Adran Graddio a fydd yn dechrau yn y flwyddyn ariannol newydd ym mis Ebrill 2024.

Bydd gwaith hefyd yn parhau i edrych ar sut y gall y Rhaglen fod yn fwy hygyrch i'n cyfranogwyr, gyda'r posibilrwydd o aildrefnu clinigau i ddarparu apwyntiadau sgrinio'r llygaid ar ddydd Sadwrn a chyda'r nos. Yn olaf, bydd gwaith caffael camerâu ffwndws newydd yn mynd rhagddo yn dilyn cymeradwyo

achos busnes gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2023/24.  Mae tîm prosiect wedi'i sefydlu i werthuso offer priodol sydd â'r bwriad o ailosod yr holl gamerâu ffwndws yn y Rhaglen erbyn diwedd chwarter un 2024/25.

## Cyflawni'r rhaglen

Mae Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflwyno a sicrhau ansawdd Rhaglen DESW. Mae'r Rhaglen yn cyflogi Pennaeth Rhaglen llawnamser, Cyfarwyddwr Clinigol sesiynol, ac Arbenigwr Cyswllt.  Ers 2020, mae pedair nyrs llawnamser wedi ymgymryd â'r gwaith goruchwyliaeth glinigol a phroffesiynol o sgrinio.  Erbyn dechrau mis Ebrill 2023, roedd Pennaeth Rhaglen newydd parhaol wedi'i recriwtio yn dilyn y strwythur rheoli dros dro a oedd ar waith ar gyfer 2022/23. Cafodd swydd y Rheolwr Trawsnewid ei diwygio hefyd i ddod yn rôl Arweinydd Trawsnewid a Newid barhaol o fewn y Rhaglen.

Mae'r tîm sgrinio, sy'n cynnal y clinigau sgrinio, yn cynnwys 57 o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd (sgrinwyr), ac mae 40 ohonynt wedi'u hyfforddi i dynnu delweddau o'r retina yn ogystal â chwblhau'r asesiad craffter golwg a rhoi diferion llygaid i gleifion yn ein lleoliadau clinig. Mae'r staff hyn yn gweithredu o bedwar canolfan ledled Cymru ac yn cael eu cefnogi gan reolwyr lleol sy'n cyfuno cyfrifoldebau rheoli a darparu clinigau.  Mae pob delwedd retinol a dynnir ledled Cymru yn cael ei hadolygu a'i graddio gan ein tîm graddio sydd â 12 aelod sydd wedi'u lleoli yn Nhrefforest, de Cymru. Caiff y graddwyr eu rheoli gan staff sy'n cyflawni dyletswyddau graddio a rheoli.

Mae tîm ymroddedig sydd hefyd wedi'i leoli yn Nhrefforest, de Cymru, yn cyflawni holl ddyletswyddau gweinyddol y Rhaglen.  Mae'r tîm hwn yn cynnwys 12 aelod o staff sy'n cael eu rheoli gan ddau Gydlynydd Llwybr Sgrinio a Rheolwr Llwybr Sgrinio.

## Llwybr Sgrinio


- Mae pobl 12 oed a hŷn sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes, sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru, yn cael eu hatgyfeirio at DESW i gael prawf sgrinio'r llygaid rheolaidd.
- Gwahoddir pobl gymwys i gael prawf sgrinio'r llygaid mewn mwy na 75 o leoliadau cymunedol ledled Cymru, fel ysbytai, canolfannau iechyd a phractisiau meddygon teulu.
- Mae'r cyfranogwyr yn cael ymgynghoriad byr gyda Chynorthwyydd Gofal Iechyd DESW. Ar ôl gwirio'r craffter golwg (siart llygaid), rhoddir diferion llygaid i wella ansawdd y ddelwedd.
- Ar ôl aros tua 20 munud i'r diferion llygaid weithio, bydd y ffotograffydd yn tynnu lluniau o gefn y llygaid gan ddefnyddio camera arbennig.

- Bydd y delweddau'n cael eu graddio i nodi a oes retinopathi diabetig yn bresennol, ac, os yw'n bresennol, ddifrifoldeb y retinopathi.

- Anfonir llythyrau sy'n cynnwys canlyniadau'r prawf sgrinio ac yn egluro'r camau nesaf at bob cyfranogwr:

    - Pan fo 'dim retinopathi', neu pan fo swm cyfyngedig yn unig o retinopathi cefndirol yn bresennol, bydd y cyfranogwr yn cael ei wahodd eto i gael prawf sgrinio gan DESW ymhen tua 12 mis.
    - Os bydd cyfranogwyr wedi cael dau apwyntiad sgrinio 'dim retinopathi' wedi'i nodi, byddant yn cael eu gwahodd eto i gael eu prawf sgrinio gan DESW ymhen tua 24 mis.
    - Ar gyfer pob cyfranogwr y nodwyd bod ganddo lefel arall o retinopathi, gwneir atgyfeiriad at Adran Offthalmoleg ei ysbyty lleol ar gyfer asesiad arbenigol a thriniaeth bosibl.
    - Caiff cyfranogwr sy'n feichiog ei weld o leiaf ddwywaith yn ystod ei feichiogrwydd. Cynhelir yr apwyntiadau hyn yn ystod 12 wythnos a 28 wythnos y beichiogrwydd. Os bydd angen trydydd apwyntiad, bydd hyn yn digwydd rhwng 16 ac 20 wythnos y beichiogrwydd.
    - Weithiau, nid yw'r delweddau a gymerir yn ddigon clir i wneud asesiad llawn (delweddau 'annigonol'). Bydd y cyfranogwyr hyn yn cael eu gwahodd eto i dynnu rhagor o ddelweddau mewn ail apwyntiad. Os caiff y delweddau eu nodi fel rhai 'annigonol' yn yr ail apwyntiad hwn, bydd angen atgyfeiriad at wasanaethau Offthalmoleg am asesiad gydag offer gwahanol.

## Ffigwr 1: Llwybr Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru



# Prif Ystadegau

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu’r gweithgarwch rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.

- Roedd 194,214 o gyfranogwyr gweithredol cymwys - 139,728 ar y llwybr ailalw blynyddol a 54,486 ar y llwybr ailalw risg isel.
- Roedd cwmpas cyffredinol y rhaglen yn 52.3% ar draws y llwybrau 12 mis a 24 mis (ar 31 Mawrth 2024)
- Roedd y cwmpas ar gyfer y llwybr ailalw blynyddol yn 35.4% o fewn 12 mis (ar 31 Mawrth 2024)
- Roedd y cwmpas ar gyfer y llwybr ailalw risg isel yn 95.7% o fewn 24 mis (ar 31 Mawrth 2024)
- Roedd cyfradd y nifer a dderbyniodd eu hapwyntiadau sgrinio yn 78.2% (ar 31 Mawrth 2024).
- Derbyniwyd 16,633 o atgyfeiriadau ychwanegol ar gyfer pobl a oedd newydd gael diagnosis o ddiabetes neu a oedd newydd gofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru.
- Gwahoddwyd 102,271 o unigolion i gael prawf sgrinio’r llygaid.
- Aeth 79,935 o unigolion i glinigau sgrinio’r llygaid (gan gynnwys y bobl a aeth ar fwy nag un achlysur).
- Nid aeth 22% o'r rhai a wahoddwyd i apwyntiad sgrinio llygaid DESW.
- Adroddodd DESW 85,428 o ganlyniadau profion sgrinio, gan gynnwys 6,881 (8.1%) a adroddwyd fel 'annigonol'.
- Nododd DESW bresenoldeb rhywfaint o retinopathi diabetig mewn 24,477 o unigolion (28.7% o'r rhai a sgriniwyd).
- Nodwyd bod 5,356 o bobl (6.3% o'r rhai a gafodd ganlyniad prawf sgrinio) â retinopathi diabetig a allai fod yn fygythiad i'r golwg a'u hatgyfeirio gan DESW at wasanaethau Offthalmoleg i gael asesiad arbenigol.
- Drwy gydol 2023-24, roedd y cwmpas sgrinio ac amseroedd aros ailalw islaw'r safon ofynnol ac roedd amrywiad yn yr amseroedd aros a welwyd mewn gwahanol ardaloedd daearyddol.

# Data

Yn 2023/24, roedd 194,214 o gyfranogwyr gweithredol cymwys o fewn sgrinio llygaid diabetig yng Nghymru. Yn dilyn gweithredu'r llwybr ailalw risg isel, roedd 54,486 o gyfranogwyr ar y llwybr ailalw risg isel ac fe'u gwahoddwyd i gael eu prawf sgrinio bob dwy flynedd. Caiff y 139,728 o gyfranogwyr sy'n weddill eu gwahodd bob blwyddyn ar y llwybr ailalw blynyddol.

Yn 2023/24 derbyniodd y Rhaglen 16,663 o atgyfeiriadau pellach ar gyfer pobl a gafodd diagnosis o ddiabetes neu a gofrestrodd gyda meddyg teulu yng Nghymru.  Roedd cyfanswm y boblogaeth gymwys wedi cynyddu o 191,495 yn 2022-23 i 194,214 yn 2023-24.

## Cwmpas

### Diffiniad a safon

Y ganran o garfan ddiffiniedig o gyfranogwyr gweithredol cymwys sydd â chanlyniad wedi'i adrodd yn y cyfnod perthnasol.

Safon: Dylai o leiaf 80% o'r cyfranogwyr gweithredol cymwys gael canlyniad wedi'i adrodd yn y cyfnod perthnasol diwethaf.

Enwadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys fel y'u cofnodwyd ar ddiwedd y mis.

Rhifiadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys ar ddiwedd y mis, y cafodd llythyr canlyniad ei argraffu ar eu cyfer o fewn y 12 mis blaenorol.

Yn y cyfnod adrodd blaenorol, symudwyd carfan o'r boblogaeth gymwys i lwybr ailalw risg isel. Symudwyd unigolion â dau ganlyniad prawf sgrinio sy'n nodi 'dim retinopathi', dim maciwlopathi (R0M0) yn olynol yn ddiweddar i lwybr, lle cawsant eu hailalw i gael prawf sgrinio bob dwy flynedd, yn hytrach nag yn flynyddol. Cyflwynwyd y data canlynol fel crynodeb o'r cwmpas ar gyfer y boblogaeth gyfan ar gyfer y cyfranogwyr hynny sy'n cael eu hailalw'n flynyddol, a'r rhai sydd wedi symud i'r llwybr risg isel dwy flynedd.

### Canlyniad ar gyfer 2023-24

Yn 2023-24, roedd cyfanswm cwmpas y profion sgrinio llygaid diabetig yn 52.3% ledled Cymru.

Adroddwyd 101,617 o ganlyniadau, dros y cyfnod perthnasol, ar gyfer 194,214 o gyfranogwyr cymwys.

### Y duedd tair blynedd

Mae'r duedd tair blynedd yn dangos bod cynnydd o ran cwmpas o 23.5% yn 2021-22 i 31.5% yn 2022-23 i 52.3% yn 2023-24. Dylid nodi bod y cyfrifiad ar gyfer cwmpas 2023/24 yn mabwysiadu dull newydd

sy’n ystyried y llwybr ailalw risg isel. Mae'r data canlynol wedi'u rhannu'n grynodeb o gwmpas blynyddol a chwmpas ailalw risg isel; a thablau ar wahân ar gyfer cwmpas blynyddol, a chwmpas ailalw risg isel, i adlewyrchu'r dull newydd hwn.

## Trosolwg daearyddol

Mae cwmpas profion sgrinio llygaid diabetig yn amrywio ar draws ardaloedd byrddau iechyd yng Nghymru. Mae'r cwmpas uchaf ar 60.6% yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys a'r isaf yn ardal BIP Aneurin Bevan, sef 46.1%.

## Sylwadau

Diffinnir cwmpas fel canran y cyfranogwyr gweithredol cymwys, ar adeg benodol, sydd â chanlyniad wedi'i adrodd o fewn y cyfnod perthnasol. Mae cyfranogwyr anghymwys yn cynnwys y rhai nad oes ganddynt ganfyddiad o olau yn y ddau lygad (sy'n gwbl ddall); mae cyfranogwyr anactif yn cynnwys y rhai sydd o dan ofal gwasanaeth llygaid ysbyty, neu sydd wedi dewis 'optio allan' o gael profion sgrinio’r llygaid yn ystod y cyfnod.

Nid yw'r cwmpas yn bodloni'r safon 80% ledled Cymru nac ar gyfer yr un bwrdd iechyd unigol. Mae hyn oherwydd capasiti’r clinigau sgrinio a'r nifer cynyddol o bobl o fewn ein poblogaeth weithredol gymwys ledled Cymru, yn ogystal â dull parhaus o adferiad a'r ôl-groniad yn dilyn pandemig Covid-19.

Ar lefel Cymru gyfan, mae'r cwmpas ar ei isaf yn y cwintel â’r amddifadedd mwyaf (cwintel 1) sef 45.6% ac yna'r cwintel â’r amddifadedd mwyaf ond un (cwintel 2) sef 51.2%. Fodd bynnag, mae'r cwmpas ar draws cwintelau 3 i 5 yn fras debyg heb duedd llinol. Ar lefel Bwrdd Iechyd mae amrywiad yn y cwmpas yn ôl y cwintel amddifadedd. Yn BIP Aneurin Bevan, BIP Betsi Cadwaladr, BIP Caerdydd a'r Fro mae tuedd linellol. Mae'r cwmpas yn cynyddu wrth i amddifadedd ardal leihau. Fodd bynnag, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys a BIP Bae Abertawe mae'r cwmpas ar ei isaf yn y cymunedau â’r amddifadedd mwyaf, ond nid oes graddiant llinol yn amlwg ar draws cwintelau 2 i 5. Yn BIP Cwm Taf Morgannwg, 0.7% yw'r bwlch anghydraddoldeb o ran cwmpas rhwng yr ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf a lleiaf. Mae hyn yn cymharu â bwlch anghydraddoldeb Cymru gyfan o 8.9%. Yn 2022, sefydlodd yr Is-adran Sgrinio ei chanolfan sgrinio gyntaf ar y Stryd Fawr yn Aberpennar yn Rhondda Cynon Taf.  Nod y ganolfan hon oedd cynyddu hygyrchedd a mynediad i gyfranogwyr yn ardal CTM, yn enwedig cyfranogwyr o'r cymunedau â’r amddifadedd mwyaf.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 1: Cwmpas 2023-24

| Blwyddyn | Cyfranogwyr gweithredol cymwys | Canlyniadau a adroddwyd | Cwmpas (%) |
|---|---|---|---|
| 2023-24 | 194,214 | 101,617 | 52.3 |

### Tabl 2: Tuedd tair blynedd y cwmpas

| Blwyddyn | Cyfranogwyr gweithredol cymwys | Canlyniadau a adroddwyd | Cwmpas (%) |
|---|---|---|---|
| **2023-24** | 194,214 | 101,617 | 52.3% |
| **2022-23** | 191,495 | 60,286 | 31.5% |
| **2021-22** | 179,804 | 42,248 | 23.5% |


Tabl 3: Cwmpas profion sgrinio llygaid diabetig yn ôl bwrdd iechyd 2023-24

| Bwrdd Iechyd Lleol | Cyfranogwyr gweithredol cymwys | Canlyniadau a adroddwyd | Cwmpas (%) |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 39.968 | 18,408 | 46.1 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 40,647 | 23,680 | 58.3 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 25,996 | 12,474 | 48.0 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 29,597 | 14,912 | 50.4 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 25,286 | 14,958 | 59.2 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | 7,834 | 4,745 | 60.6 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 23,516 | 11,769 | 50.0 |
| Cymru Gyfan | 194,214 | 101,617 | 52.3 |


Tabl 4: Cwmpas yn ôl cwintel amddifadedd 2023-24

| Bwrdd Iechyd Lleol | Yr Amddifadedd Mwyaf 1 | 2 | 3 | 4 | Yr Amddifadedd Lleiaf 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 42.4 | 45.1 | 48.6 | 48.5 | 49.4 | 46.1% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 50.6 | 54.0 | 59.3 | 60.4 | 63.2 | 58.3% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 42.1 | 46.6 | 49.6 | 50.0 | 52.7 | 48.0% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 48.8 | 51.8 | 50.0 | 51.3 | 49.5 | 50.4% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 47.1 | 57.7 | 59.4 | 64.3 | 59.1 | 59.2% |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | 54.0 | 59.8 | 63.6 | 60.3 | 57.9 | 60.6% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 46.2 | 51.4 | 53.4 | 50.8 | 51.3 | 50.0% |
| Cymru Gyfan | 45.6 | 51.2 | 55.2 | 56.5 | 54.5 | 52.3% |

## Ffigur 2: Cwmpas profion sgrinio llygaid diabetig yn ôl bwrdd iechyd 2023-24




## Ffigur 3: Cwmpas yn ôl cwintel amddifadedd



Cwmpas yr Ailalw Blynyddol

Roedd 49,469 o ganlyniadau wedi'u hadrodd ar gyfer y 139,728 o gyfranogwyr cymwys sy'n cael eu hailalw'n flynyddol. Roedd y cwmpas yn is na'r safon ddisgwyliedig, sef 35.4%. Mae amrywiad daearyddol yn y cwmpas ar draws ardaloedd y Byrddau Iechyd yn amrywio o'r isaf sef 29.4% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i'r uchaf sef 44.2% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Tabl 5: Cwmpas y profion sgrinio llygaid diabetig blynyddol yn ôl bwrdd iechyd 2023-24

| Bwrdd Iechyd Lleol | Cyfranogwyr gweithredol cymwys | Canlyniadau a adroddwyd | Cwmpas (%) |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 29,938 | 8,801 | 29.4 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 28,352 | 11,971 | 42.2 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 19,072 | 6,193 | 32.5 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 21,359 | 6,894 | 32.3 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 17,523 | 7,416 | 42.3 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | 5,470 | 2,420 | 44.2 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 16,962 | 5,408 | 31.9 |
| **Cymru Gyfan** | 139,728 | **49,469** | **35.4** |

Ar lefel Cymru gyfan mae graddiant cymdeithasol yng nghwmpas profion sgrinio'r llygaid. Mae'r cwmpas isaf yn y cymunedau â'r amddifadedd mwyaf sef 29.5% o'i gymharu â 37.1% yn y cymunedau â'r amddifadedd lleiaf. Mae'r bwlch anghydraddoldeb yn 7.6%. Ym mhob ardal Bwrdd Iechyd, mae'r cwmpas ar ei isaf ymhlith pobl sy'n byw yn y cymunedau âr amddifadedd mwyaf. Fodd bynnag, mae amrywiad yn y cwmpas yn ôl cwintel amddifadedd ar draws Byrddau Iechyd. Mae graddiant cymdeithasol llinol ym MIP Betsi Cadwaladr a BIP Caerdydd a'r Fro. Fodd bynnag, mae'r graddiant cymdeithasol wedi'i leihau yn BIPCTM a BIP Bae Abertawe - mae bwlch anghydraddoldeb o 1.7% a 2.4% yn y drefn honno. Yn ardaloedd y Byrddau Iechyd hyn, mae lleoliadau safleoedd parhaus ar gyfer clinigau wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd uwch.

Tabl 6: Cwmpas Blynyddol yn ôl cwintel amddifadedd 2023-24

| Bwrdd Iechyd Lleol | Yr Amddifadedd Mwyaf 1 | 2 | 3 | 4 | Yr Amddifadedd Lleiaf 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 26.7% | 28.5% | 32.0% | 31.8% | 30.8% | 29.4% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 35.5% | 39.3% | 43.8% | 43.5% | 46.4% | 42.2% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 27.8% | 31.0% | 33.2% | 34.3% | 36.9% | 32.5% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 30.5% | 33.4% | 31.9% | 33.7% | 32.2% | 32.3% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 31.7% | 41.7% | 43.1% | 46.3% | 41.2% | 42.3% |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | 38.4% | 43.7% | 46.8% | 43.6% | 43.7% | 44.2% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 29.6% | 32.2% | 35.4% | 32.8% | 32.0% | 31.9% |
| Cymru Gyfan | **29.5%** | **34.3%** | **38.6%** | **39.2%** | **37.1%** | **35.4%** |

Cwmpas yr Ailalw Risg Isel

Roedd 52,148 o ganlyniadau wedi'u hadrodd ar gyfer y 54,486 o gyfranogwyr cymwys ar ailalw risg isel (dwy flynedd) - mae'r cwmpas uwchlaw'r safon ar 95.7%. Mae amrywiad daearyddol o ran cwmpas ar draws ardaloedd y Byrddau Iechyd yn amrywio o'r isaf o 90.7% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i'r uchaf o 98.4% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys. Byddai disgwyl i'r cwmpas fod uwchlaw'r safon gan fod yn rhaid i gyfranogwyr gael canlyniad prawf sgrinio R0M0 diweddar wedi'i nodi er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y llwybr ailalw risg isel.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Tabl 7: Cwmpas profion sgrinio llygaid diabetig y Llwybr Ailalw Risg Isel yn ôl bwrdd iechyd 2023-24

| Bwrdd Iechyd Lleol | Cyfranogwyr gweithredol cymwys | Canlyniadau a adroddwyd | Cwmpas (%) |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 10,030 | 9,607 | 95.8 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 12,295 | 11,709 | 95.2 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 6,924 | 6,281 | 90.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 8,238 | 8,018 | 97.3 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 7,763 | 7,542 | 97.2 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | 2,364 | 2,325 | 98.4 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 6,554 | 6,361 | 97.1 |
| **Cymru Gyfan** | 54,486 | **52,148** | **95.7** |

Ar lefel Cymru gyfan ar gyfer y llwybr ailalw risg isel nid oes graddiant cymdeithasol o ran cwmpas yn ôl cwintel amddifadedd. Mae cwmpas o 95.6% yn y cymunedau â’r amddifadedd mwyaf a 94.4% yn y cymunedau â’r amddifadedd lleiaf. Nid oes tystiolaeth bod graddiant cymdeithasol o ran cwmpas yn yr un ardal Bwrdd Iechyd. Mae cwintelau amddifadedd sy'n cael eu ffurfio gan ddefnyddio mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn fesur o amddifadedd sy'n seiliedig ar ardal ac nid ydynt yn cynrychioli nodweddion yr unigolion sy'n byw yn y cymunedau. Bydd dealltwriaeth bellach o ymddygiadau a nodweddion unigol pobl sy'n byw yn y cymunedau â’r amddifadedd mwyaf sydd ar y llwybr ailalw risg isel yn helpu i ddeall y canfyddiadau hyn.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Tabl 8: Cwmpas y Llwybr Ailalw Risg Isel (LRRP) yn ôl cwintel amddifadedd 2023-24

| Bwrdd Iechyd Lleol | Yr Amddifadedd Mwyaf 1 | 2 | 3 | 4 | Yr Amddifadedd Lleiaf 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 95.1 | 96.2 | 96.2 | 96.6 | 95 | 95.8 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 96 | 95.2 | 92.8 | 95.9 | 96.8 | 95.2 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 91.6 | 92.7 | 91.4 | 90.8 | 89.1 | 90.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 97.8 | 97.8 | 97.3 | 96.6 | 95.6 | 97.3 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 94.7 | 97.5 | 96.2 | 98.5 | 98.1 | 97.1 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | 99.3 | 99.1 | 99.3 | 97.4 | 97.9 | 98.4 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 97.3 | 97.5 | 97.6 | 97.1 | 96 | 97.1 |
| Cymru Gyfan | 95.60% | 96.60% | 95.30% | 96.50% | 94.40% | 95.7% |

# Nifer sy’n cael prawf sgrinio

## Diffiniad a safon

Diffinnir y nifer sy’n cael prawf sgrinio fel canran y cyfranogwyr cymwys sydd wedi mynd i wahoddiad prawf sgrinio.

Mae'r nifer sy'n cael prawf sgrinio llygaid diabetig wedi'i osod o fewn egwyddorion dewis ar sail gwybodaeth a safon ddisgwyliedig o 80% o gyfranogwyr yn mynd i ddigwyddiad sgrinio digidol lle mae delweddau'n cael eu tynnu.

Enwadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys sydd wedi cael cynnig apwyntiad sgrinio rhwng dechrau'r mis a diwedd y mis.

Rhifiadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys sydd wedi mynd i apwyntiad sgrinio rhwng dechrau'r mis a diwedd y mis. Mae hyn yn cynnwys cyfranogwyr a aeth ond na ellid tynnu eu llun am resymau technegol a chyfranogwyr nad oeddent yn gallu cydymffurfio â'r weithdrefn sgrinio.

## Canlyniad ar gyfer 2023-24

Yn 2023-24, roedd y nifer a gafodd prawf sgrinio yn 78.2%, ychydig islaw'r safon ddisgwyliedig o 80%.

## Y duedd tair blynedd

Mae'r duedd tair blynedd yn dangos cynnydd yn y nifer sy'n cael prawf sgrinio o 57.9% yn 2021-22 i 81.9% yn 2022-23. Fodd bynnag bu gostyngiad bach i 78.2%, sydd islaw'r safon ddisgwyliedig, yn 2023-24.

## Trosolwg daearyddol

Yn 2023-24 nid yw'r safon o 80% ar gyfer y nifer sy’n cael prawf sgrinio wedi'i chyrraedd ar lefel Cymru Gyfan. Fodd bynnag, mae rhywfaint o amrywiad daearyddol - mae’r nifer sy’n cael prawf sgrinio yn amrywio o 76% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i 81.7% ym Mwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yw'r unig ardal yng Nghymru lle mae'r safon o 80% wedi'i chyflawni.

## Sylwadau

Gwahoddodd DESW 102,271 o gyfranogwyr i gael prawf sgrinio'r llygaid, gyda 79,935 o unigolion yn mynd i glinigau (gan gynnwys pobl a aeth ar fwy nag un achlysur) yn dangos bod y nifer sy'n cael prawf sgrinio (78.2%) yn is na'r safon o 80% ar gyfer y nifer sy'n cael prawf sgrinio. Mae'r nifer sy'n cael prawf sgrinio wedi cynyddu o 57.9% yn 2021-22 i 78.2 yn 2023-24.

Roedd y gyfradd diffyg mynd i apwyntiadau'r gwasanaeth, ar gyfer y bobl hynny na fanteisiodd ar eu gwahoddiad i gael prawf sgrinio, yn 21.8%, sy'n gyson â'r blynyddoedd blaenorol nad oeddent yn rhai'r pandemig.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 9: Nifer sy'n cael prawf sgrinio 2023-24

| Blwyddyn | Wedi Mynd i'r Apwyntiad | Wedi Cael eu Gwahodd | Nifer sy'n cael prawf sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| 2023-24 | 79,935 | 102,271 | 78.2 |

### Tabl 10: Y duedd tair blynedd o ran y nifer sy'n cael prawf sgrinio

| Blwyddyn | Wedi Mynd i'r Apwyntiad | Wedi Cael eu Gwahodd | Nifer sy'n cael prawf sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| 2023-24 | 79,935 | 102,271 | 78.2 |
| 2022-23 | 68,970 | 84,156 | 81.9 |
| 2021-22 | 48,637 | 84,076 | 57.9 |

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Tabl 11: Nifer y rhai sy'n cael prawf sgrinio am lygaid diabetig yn ôl bwrdd iechyd 2023-24

| Bwrdd Iechyd Lleol | Wedi Mynd i'r Apwyntiad | Wedi Cael eu Gwahodd | Nifer sy'n cael prawf sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 14,955 | 19,254 | 77.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 18,830 | 23,853 | 78.9 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 9,329 | 12,013 | 77.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 11,402 | 14,858 | 76.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 12,046 | 15,104 | 79.8 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | 3,824 | 4,678 | 81.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 9,000 | 11,837 | 76 |
| Cymru Gyfan | 79,935 | 102,271 | 78.2 |

# Cynnig prawf sgrinio prydlon

## Diffiniad a safon

Dylid cynnig apwyntiad ailalw i o leiaf 95% o gyfranogwyr gweithredol cymwys ar y llwybr ailalw blynyddol ymhen 12 mis o ganlyniad eu prawf sgrinio diwethaf.

## Canlyniad ar gyfer 2023-24

Yn 2023-24, cynigiwyd apwyntiad ailalw i 7.7% o gyfranogwyr gweithredol cymwys ar y llwybr ailalw blynyddol ymhen 12 mis o ganlyniad eu prawf sgrinio diwethaf.

## Y duedd tair blynedd

Mae'r duedd tair blynedd wedi cynyddu o 6.6% yn 2021-22 i 7.7% yn 2023-24.

## Trosolwg daearyddol

Mae amrywiad o ran cyfraddau ailalw ar draws Cymru o 3.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i 18.77% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

## Sylwadau

Ni chyrhaeddir y safon hon ledled Cymru nac ar gyfer yr un bwrdd iechyd. Mae hyn oherwydd capasiti clinigau ledled Cymru ac ôl-groniad hir yn dilyn pandemig Covid-19. Gall amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau sgrinio amrywio rhwng ardaloedd byrddau iechyd ac mae'n ymwneud ag argaeledd lleoliadau cymunedol a ddarperir gan y bwrdd iechyd. Ar hyn o bryd, mae apwyntiadau sgrinio'r llygaid yn parhau i fod yn destun oedi. Mae'r cynnig apwyntiadau fel arfer rhwng 18 a 24 mis o ganlyniad eu prawf sgrinio diwethaf.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 12: Cyfranogwyr a ailalwyd ymhen 12 mis 2023-24

| Blwyddyn | Cynigwyd ailalw ymhen 12 mis | Cynigwyd ailalw | Cynigwyd ailalw ymhen 12 mis % |
|---|---|---|---|
| 2023-24 | 3,353 | 43,471 | 7.7% |


### Tabl 13: Tuedd tair blynedd y cyfranogwyr a ailalwyd ymhen 12 mis

| Blwyddyn | Cynigwyd ailalw ymhen 12 mis | Cynigwyd ailalw | Cynigwyd ailalw ymhen 12 mis % |
|---|---|---|---|
| 2023-24 | 3,353 | 43,471 | 7.7% |
| 2022-23 | 2,824 | 59,281 | 4.7% |
| 2021-22 | 4,223 | 64,391 | 6.6% |

Tabl 14: Cyfranogwyr a ailalwyd ymhen 12 mis yn ôl bwrdd iechyd 2023-24

| Bwrdd Iechyd Lleol | Cynigwyd ailalw ymhen 12 mis | Cynigwyd ailalw | Cynigwyd ailalw ymhen 12 mis % |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 298 | 9,451 | 3.2 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 445 | 9,551 | 4.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 164 | 3,482 | 4.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 1,213 | 6,498 | 18.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 897 | 6,243 | 14.4 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | 102 | 2,162 | 4.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 224 | 5,796 | 3.9 |
| Cymru Gyfan | 3,353 | 43,471 | 7.7 |

Ffigur 4: Cyfranogwyr a ailalwyd ymhen 12 mis yn ôl bwrdd iechyd 2023-24



# Adroddiad ar ganlyniad prawf sgrinio

## Diffiniad a safon

Dylid argraffu o leiaf 85% o lythyrau canlyniadau cyfranogwyr ymhen 21 diwrnod calendr o'r apwyntiad sgrinio.

## Canlyniad ar gyfer 2023-24

Yn 2023-24, argraffwyd 83.6% o lythyrau canlyniadau cyfranogwyr ymhen 21 diwrnod calendr o'u hapwyntiad sgrinio.

## Y duedd tair blynedd

Yn 2021-22, argraffwyd 99.9% o'r canlyniadau ymhen 21 diwrnod. Cynyddodd hyn yn 2022-23 i 90.3% o ganlyniadau a argraffwyd ymhen 21 diwrnod. Fodd bynnag, mae hyn wedi gostwng i 83.6% yn 2023-24.

## Sylwadau

Yn 2023-24, argraffwyd bron i 84% o lythyrau canlyniadau cyfranogwyr ymhen 21 diwrnod calendr o'u hapwyntiad sgrinio, sydd ychydig islaw'r safon ddisgwyliedig o 85%. Bu gostyngiad o 90.3% yn 2022-23 sy'n adlewyrchu'r nifer cynyddol o gyfranogwyr a welwyd o fewn y rhaglen sgrinio yn 2023-24.

Mae canran y llythyrau canlyniadau cyfranogwyr a argraffwyd ymhen 21 diwrnod calendr islaw'r safon ddisgwyliedig o 85% ar lefel Cymru gyfan. Fodd bynnag, cyflawnir y safon ym Mhrif Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Mhrif Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Mhrif Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Bydd gwelliannau capasiti ac effeithlonrwydd staff ychwanegol a gyflawnir drwy'r rhaglen drawsnewid ar gyfer profion sgrinio'r llygaid yng Nghymru yn cynyddu prydlondeb yn y blynyddoedd i ddod.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 15: Canlyniadau a argraffwyd ymhen 21 diwrnod 2023-24

| Blwyddyn | Canlyniadau a argraffwyd ymhen 21 diwrnod | Llythyrau canlyniadau a argraffwyd | Canlyniadau a argraffwyd ymhen 21 diwrnod % |
|---|---|---|---|
| **2023-24** | 71,444 | 85,428 | 83.6 |


Tabl 16: Tuedd tair blynedd y canlyniadau a argraffwyd ymhen 21 diwrnod

| Blwyddyn | Canlyniadau a argraffwyd ymhen 21 diwrnod | Llythyrau canlyniadau a argraffwyd | Canlyniadau a argraffwyd ymhen 21 diwrnod % |
|---|---|---|---|
| **2023-24** | 71,444 | 85,428 | 83.6 |
| **2022-23** | 57,441 | 63,611 | 90.3 |
| **2021-22** | 47,365 | 47,410 | 99.9 |

Tabl 17: Llythyrau canlyniadau a argraffwyd yn ôl bwrdd iechyd 2023-24

| Bwrdd Iechyd Lleol | Canlyniadau a argraffwyd ymhen 21 diwrnod | Llythyrau canlyniadau a argraffwyd | Canlyniadau a argraffwyd ymhen 21 diwrnod % |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 13,506 | 15,942 | 84.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 16,861 | 19,870 | 84.9 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 8,443 | 9,827 | 85.9 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 10,069 | 12,311 | 81.8 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 10,775 | 12,832 | 84.0 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | 3,353 | 4,390 | 76.4 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 7,882 | 9,576 | 82.3 |
| Cymru Gyfan | 71,444 | 85,428 | 83.6 |

Ffigur 5: Llythyrau canlyniadau a argraffwyd yn ôl bwrdd iechyd 2023-24



# Retinopathi wedi'i Nodi

## Diffiniad a safon

Mae 'unrhyw retinopathi' yn cynnwys presenoldeb pob gradd retinopathi: o retinopathi ysgafn, cefndirol i retinopathi ymledol sy'n gofyn am atgyfeiriad brys i'r ysbyty. Gall presenoldeb a difrifoldeb retinopathi amrywio yn dibynnu ar lefel glwcos gwaed yr unigolyn dros amser. Gall unigolyn sydd yn y categori 'unrhyw retinopathi' un flwyddyn symud i 'dim retinopathi' yn ei ddigwyddiad sgrinio nesaf.

Mae'r categori 'annigonol' yn ymwneud â'r cyfranogwyr hynny sydd wedi mynd i'w hasesiad sgrinio'r llygaid, ond nid yw wedi bod yn bosibl tynnu llun clir o'u retina i alluogi graddio i ddigwydd. Enghraifft o hyn fyddai bod gan y cyfranogwr gataract sy'n cuddio'r retina o'r golwg, neu fod problemau technegol wedi bod gyda'r camera. Gall cyfranogwyr sydd â delweddau annigonol gael eu cyfeirio at Wasanaeth Llygaid yr Ysbyty neu eu hailalw i gael prawf sgrinio, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Safon:  Ddim yn berthnasol

Ar gyfer cyfranogwyr â nodir bod ganddynt retinopathi difrifol (canlyniad R3A) mae angen atgyfeiriad brys at Wasanaeth Llygaid yr Ysbyty gan DESW. Y safon yw bod 95% o atgyfeiriadau brys i Wasanaeth Llygaid yr Ysbyty oherwydd canlyniad R3A yn cael eu gwneud ymhen pythefnos o ddyddiad y prawf sgrinio.

## Canlyniad ar gyfer 2023-24

Yn 2023-24, roedd gan 63.3% o gyfranogwyr 'dim retinopathi' wedi'i nodi, roedd gan 28.7% 'unrhyw retinopathi' wedi'i nodi ac roedd gan 8.1% arall ddelweddau annigonol.

## Y duedd tair blynedd

Cynyddodd y duedd tair blynedd ar gyfer cyfranogwyr 'dim retinopathi' o 52.5% yn 2021-22, i 71% yn 2022-23, yna gostyngodd i 63.3% yn 2023-24. Mae'r duedd tair blynedd ar gyfer cyfranogwyr ag 'unrhyw retinopathi' wedi gostwng o 38.5% yn 2021-22, i 22.7% yn 2022-23, ac yna mae wedi cynyddu ychydig i 28.7% yn 2023-24.  Mae'r duedd tair blynedd ar gyfer cyfranogwyr â delweddau annigonol wedi aros yn gyson, er ei bod yn 9% yn 2021-22, gan ostwng i 6.4% yn 2022-23, ond cynyddu i 8.1% yn 2023-24.

## Trosolwg daearyddol

Mae amrywiad daearyddol cyfyngedig ledled Cymru o 'dim retinopathi' wedi'i nodi. Mae'n amrywio o 61.9% o bobl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda 'dim retinopathi' i 65.7% gyda 'dim retinopathi' ym Mwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys

## Sylwadau

Yn ystod 2023-24 ledled Cymru, roedd gan 63.3% o gyfranogwyr 'dim retinopathi' wedi'i nodi o'u profion sgrinio. Roedd 28.7% a oedd wedi cael 'unrhyw retinopathi' wedi'i nodi gydag 8.1% arall â delweddau annigonol.

Mae cyfran y cyfranogwyr gyda 'dim retinopathi' wedi amrywio ond wedi cynyddu ychydig o 2021/22 pan oedd yn 52.5%. Cynyddodd hyn i 71% yn 2022-23 ond mae wedi gostwng i 63.3% yn 2023-24. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r newid yn amlder profion sgrinio ar gyfer cyfranogwyr risg isel o ganlyniad i gyflwyno'r llwybr ailalw risg isel ym mis Mehefin 2023. Dim ond bob dwy flynedd y mae cyfranogwyr risg isel na fyddai ganddynt 'dim retinopathi' mewn dwy rownd sgrinio flaenorol yn cael prawf sgrinio bellach. Yn 2023/24, byddai llai o gyfranogwyr gyda chanlyniadau prawf sgrinio 'dim retinopathi' blaenorol wedi cymryd rhan yn y rhaglen sgrinio. O ganlyniad i hyn, byddai disgwyl y byddai cyfran y bobl sy'n cael prawf sgrinio â retinopathi wedi'i nodi. Ledled Cymru, o'r 28.7% o gyfranogwyr a sgriniwyd sydd ag 'unrhyw retinopathi', mae cyfran llawer llai wedi nodi retinopathi sy'n bygwth y golwg. Mae retinopathi neu maciwlopathi sy'n bygwth golwg yn gofyn am atgyfeiriad at wasanaethau llygaid ysbyty ar gyfer asesiad a thriniaeth arbenigol. O'r holl gyfranogwyr, adroddwyd bod gan 6.3% retinopathi sy'n bygwth golwg. Mae hyn yn amrywio o 8.0% ym Mhrif Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i 5.4% ym Mhrif Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Yn 2023-24 gwnaed 723 o atgyfeiriadau brys ar gyfer retinopathi difrifol (R3A). Gwnaed 542 ohonynt ymhen 14 diwrnod. Mae hyn yn 75% o atgyfeiriadau brys a wnaed ymhen 14 diwrnod, sydd islaw'r safon ddisgwyliedig o 95%. Mae amrywiad daearyddol ledled Cymru - gwnaed 80.8% o atgyfeiriadau yn BIP Aneurin Bevan ymhen 14 diwrnod o'i gymharu â 52.8% yn Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys.

Gwnaed atgyfeiriadau brys at wasanaethau Offthalmoleg hefyd ar gyfer briwiau eraill. O'r 1,048 o atgyfeiriadau brys a wnaed ledled Cymru yn 2023-24, gwnaed 325 ar gyfer briwiau eraill a nodwyd yn ystod y broses raddio.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 18: Dadansoddiad presenoldeb retinopathi yn ôl bwrdd iechyd 2023-24

| Bwrdd Iechyd | Canlyniadau a adroddwyd | Dim retinopathi | % | Unrhyw retinopathi | % | Delwedd annigonol | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 15,942 | 10,430 | 65.4 | 4,257 | 26.7 | 1,255 | 7.9 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 19,870 | 12,307 | 61.9 | 5,898 | 29.7 | 1,665 | 8.4 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 9,827 | 6,176 | 62.8 | 2,813 | 28.6 | 838 | 8.5 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 12,311 | 7,837 | 63.7 | 3,519 | 28.6 | 955 | 7.8 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 12,832 | 7,996 | 62.3 | 3,659 | 28.5 | 1,177 | 9.2 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | 4,390 | 2,885 | 65.7 | 1,202 | 27.4 | 303 | 6.9 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 9,576 | 5,991 | 62.6 | 2,937 | 30.7 | 648 | 6.8 |
| Cymru Gyfan | 85,428 | 54,070 | 63.3 | 24,477 | 28.7 | 6,881 | 8.1 |

Tabl 19: Canlyniadau retinopathi yn ôl bwrdd iechyd 2023-24

| Bwrdd Iechyd | Retinopathi/maciwlopathi sy'n bygwth y golwg | % o'r boblogaeth ddiabetig a sgriniwyd â retinopathi/maciwlopathi sy'n bygwth y golwg | Retinopathi/ maciwlopathi difrifol * | % o'r boblogaeth ddiabetig a sgriniwyd â retinopathi/maciwlopathi difrifol |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 864 | 5.4 | 120 | 0.8 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 1,323 | 6.7 | 193 | 1.0 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 656 | 6.7 | 68 | 0.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 695 | 5.6 | 91 | 0.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 734 | 5.7 | 111 | 0.9 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | 275 | 6.3 | 36 | 0.8 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 767 | 8.0 | 98 | 1.0 |
| Cymru | 5,356 | 6.3 | 722 | 0.8 |

* Nifer y bobl â retinopathi/maciwlopathi sy'n bygwth y golwg ac sy'n ddifrifol – noder bod y cyfranogwyr hyn yn ymddangos yn y categorïau sy'n bygwth y golwg a difrifol.

Tabl 20: Atgyfeiriadau brys ar gyfer retinopathi ymledol gweithredol (R3A) at wasanaethau Offthalmoleg ymhen 14 diwrnod yn ôl bwrdd iechyd 2023-24

| Bwrdd Iechyd | Nifer yr atgyfeiriadau R3A brys a wnaed | Atgyfeiriadau R3A a wnaed ymhen 14 diwrnod | % |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 120 | 97 | 80.8 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 193 | 134 | 69.4 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 68 | 53 | 77.9 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 92 | 72 | 78.3 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 111 | 86 | 77.5 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | 36 | 19 | 52.8 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 98 | 76 | 77.6 |
| Cymru Gyfan | 723 | 542 | 75 |

Mae cyfansymiau Cymru yn cynnwys nifer fach o gyfranogwyr lle nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi'i gofnodi.

Tabl 21: Pob atgyfeiriad brys at wasanaethau Offthalmoleg yn ôl bwrdd iechyd 2023-24

| Bwrdd Iechyd | Pob atgyfeiriad brys at wasanaethau Offthalmoleg ar gyfer retinopathi diabetig | Pob atgyfeiriad brys at wasanaethau Offthalmoleg ar gyfer briwiau eraill * | Cyfanswm yr atgyfeiriadau brys |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 120 | 62 | 182 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 193 | 86 | 279 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 68 | 35 | 103 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 92 | 43 | 135 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 111 | 42 | 153 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | 36 | 21 | 57 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 98 | 31 | 129 |
| **Cymru Gyfan** | **723** | **325** | **1,048** |

Mae cyfansymiau Cymru yn cynnwys nifer fach o gyfranogwyr lle nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi'i gofnodi.

* Os, wrth asesu delwedd am retinopathi diabetig, bydd y graddiwr yn sylwi ar fater pryder nad yw'n ddiabetig, gallai hyn hefyd ysgogi atgyfeiriad arferol neu frys.

# Diffiniadau

## Gweithredol cymwys

Mae diffiniad poblogaeth weithredol gymwys yn cynnwys y cyfranogwyr canlynol:

- Yn aros am apwyntiad/prawf sgrinio
- Yn cael prawf sgrinio/ei raddio
- O dan ofal gwasanaethau Offthalmoleg ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn ddiabetig
- Wedi'i nodi fel dychweliad gan y swyddfa bost

Mae'r boblogaeth weithredol gymwys yn eithrio cyfranogwyr sydd wedi'u hatal ac yn anweithredol:

## Wedi'i atal

- O dan ofal gwasanaethau Offthalmoleg ar gyfer retinopathi diabetig
- Gohiriwyd y prawf sgrinio
- Anabledd corfforol/dysgu neu feddyliol dros dro
- Gwrthodwyd prawf sgrinio
- O dan 12

## Anweithredol

- Dewis peidio â chael eich prawf sgrinio
- Anaddas yn feddygol
- Dim canfyddiad golau yn y ddau lygad
- Salwch angheuol
- Wedi marw
- Wedi rhyddhau
- Wedi symud o'r ardal
- Ddim yn ddiabetig mwyach

- Anabledd corfforol/dysgu/meddyliol parhaol
- Wedi Cofrestru'n Ddall

## Nifer sy'n cael prawf sgrinio

Nifer sy'n cael prawf sgrinio: % o gyfranogwyr cymwys sydd wedi mynd i brawf sgrinio.

Mae'r nifer sy'n cael prawf sgrinio llygaid diabetig wedi'i osod o fewn egwyddorion dewis ar sail gwybodaeth a safon ddisgwyliedig o 80% o gyfranogwyr yn mynd i ddigwyddiad sgrinio digidol lle mae delweddau'n cael eu tynnu.

Enwadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys sydd wedi cael cynnig apwyntiad sgrinio rhwng dechrau'r mis a diwedd y mis.

Rhifiadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys sydd wedi mynd i apwyntiad sgrinio rhwng dechrau'r mis a diwedd y mis. Mae hyn yn cynnwys cyfranogwyr a aeth ond na ellid tynnu eu llun am resymau technegol a chyfranogwyr nad oeddent yn gallu cydymffurfio â'r weithdrefn sgrinio.

## Cwmpas

Cwmpas: % o garfan ddiffiniedig o gyfranogwyr gweithredol cymwys sydd â chanlyniad wedi'i adrodd yn y cyfnod amser diffiniedig

Enwadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys fel y'u cofnodwyd ar ddiwedd y mis.

Rhifiadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys ar ddiwedd y mis, y cafodd llythyr canlyniad ei argraffu ar eu cyfer o fewn y cyfnod amser diffiniedig.

## Bwrdd Iechyd

Dyma fwrdd iechyd preswyl y cyfranogwr.

## Wedi Cael eu Gwahodd

Cyfranogwyr sydd â chynigion apwyntiad cyntaf (heb eu canslo gan y Rhaglen), o fewn y mis adrodd.

## Wedi'u profi

Nifer y cyfranogwyr sydd â chanlyniad graddio terfynol.

## Retinopathi/Maciwlopathi sy'n Bygwth y Golwg

Yn cynnwys canlyniadau graddio sy'n dynodi retinopathi cyn-ymledol neu ymledol: R2M0, R2M1, R3AM0, R3AM1, R3SM1. Hefyd yn cynnwys canlyniad graddio o retinopathi cefndir lleiaf gyda maciwlopathi R1M1.

## Retinopathi/Maciwlopathi Difrifol

Yn cynnwys canlyniadau graddio sy'n dynodi retinopathi difrifol (ymledol): R3AM0, R3AM1.

# Y Tîm Cynhyrchu

| | |
|---|---|
| Kate Morgan | Pennaeth y Rhaglen: Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru |
| Dr Bethan Bowden | Ymgynghorydd Sgrinio Iechyd y Cyhoedd |
| Guy Stevens | Rheolwr Gwybodeg Arweiniol a Gwasanaethau Data Dros Dro |
| Gavin Bhakta | Uwch Arbenigwr Gwybodeg a Data |
| Dr Sharon Hillier | Cyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio |
| Samuel Humphrey | Rheolwr Cyfathrebu |
| Alex Stevens | Dadansoddwr Gwybodeg a Data |
| Dr Emma Richards | Ymchwilydd Iechyd y Cyhoedd |

Wedi'i gyfieithu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Manylion cyswllt y rhaglen

Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru

1 Llys Fairway

Glan-Bad

Trefforest

Rhondda Cynon Taf

CF37 5UA

E-bost: diabetic-eye-screening@wales.nhs.uk

Rhif Ffôn: 0300 003 0500

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales